*Merched y Wawr*

**Cangen Talwrn, Rhanbarth Môn.**

**1975**
Blwyddyn sefydlu'r gangen dan arweiniad Meri Rhiannon Elis. Ar wahoddiad Meri daeth criw at ei gilydd ym Modlondeb i drefnu sefydlu Cangen y Talwrn.
Ar hyd y blynyddoedd bu Meri'n arian byw yn ein plith ac yn asgwrn cefn i'r gangen.

**Hydref 1975**
Y cyfarfod cyhoeddus cyntaf yn Neuadd y Pentref.
Cafwyd sgwrs am ei gwaith gan y nofelydd Jane Edwards.

**Tachwedd 1975**
Y wraig wadd oedd Elen Roger Jones - yr actores adnabyddus o Farianglas - a mam Meri.
Dangosodd y dillad arbennig a gasglwyd ganddi dros y blynyddoedd.
Bu'r gangen yn lwcus o gael ei chwmni lawer gwaith wedyn.



Elen Roger Jones a Meri Rhiannon Elis

**Rhagfyr 1975**
Cynhaliwyd Gwasanaeth Carolau undebol ar gyfer y pentref er mwyn casglu arian tuag at elusennau lleol ac rydym yn dal i'w gynnal hyd heddiw. Yn 2008 codwyd arian tuag at yr Ambiwlans Awyr a'r Ysgol Feithrin.

Roedd 35 o aelodau yn y flwyddyn gyntaf. Gwelir 4 ohonynt yn lluniau'r parti i ddathlu pen-blwydd y gangen yn 30 oed yn Neuadd y Pentref Talwrn, ym mis Hydref 2005.



Eirian Davies, Delyth Jones, Janet Quinn, Jean Jones, Carys Taylor, Elisabeth Williams, Annwen Jones, **Vera ap Rhobert**, Buddug Thomas, Myfanwy Jones**, Myfanwy Williams, Beryl Hughes**, Alice Williams

Roedd Meri Rhiannon Elis, Myfanwy Williams, Elisabeth Williams a Beryl Hughes yn aelodau o'r cychwyn.



**Meri Rhiannon Elis** a Myfanwy Williams yn torri'r deisen benblwydd

Pan dynnwyd y llun hwn roedd Meri a Richard newydd symud i Landegfan.

Roedd yn chwith gennym ei cholli ond cadwodd ei chysylltiad a threfnu bod canghennau'r Talwrn a Llandegfan yn cyd-gyfarfod bob blwyddyn – arferiad sy'n parhau hyd heddiw (2017). Tristwch mawr i ni i gyd oedd colli Meri ym mis Hydref 2007.

**Cofnodion Cyfarfod Merched y Wawr 17 Hydref 1975**

**Swyddogion am 1975-76**

| | | |
|---|---|---|
| Llywydd | Meri Rhiannon Elis | Bodlondeb |
| Ysgrifennydd | Bethan Williams | Penyberth |
| Trysorydd | Frances Parry | Bron Haul |
| Gohebydd y Wasg | Myfanwy Williams | Bryn Clorion |

Daeth nifer ohonom ynghyd i Neuadd y Pentref i gyfarfod cyntaf cangen Merched y Wawr, Talwrn. Ar ddechrau'r noson cawsom sgwrs fer gan Meri Rhiannon Elis am fudiad Merched y Wawr. Croesawyd Jane Edwards i'n plith gan ein llywydd a chafwyd noson ddifyr iawn yn gwrando arni'n darllen rhannau o'i gwaith ac yn egluro sut y bydd hi'n mynd ati i ysgrifennu. Diolchwyd i Jane Edwards gan Miss Jones Tŷ'n Lôn. Treuliwyd gweddill y noson yn trafod awgrymiadau am raglen y flwyddyn. Pasiwyd i gynnal y cyfarfodydd ar ail nos Wener y mis.

Dewiswyd y canlynol i ffurfio'r pwyllgor
Miss Jones, Ty'n Lôn
Mrs. Williams, Ty'n Llidiart
Mrs. Price, Gwenllian
Mrs. Wilson, Bryn Eglwys
Rhoddwyd y te gan Meri Elis, Frances Parry a Bethan Williams.

**Cofnodion y Pwyllgor, nos Fawrth 12 Tachwedd 1975**
Mrs. Meri Rhiannon Elis
Miss Jones, Ty'n Lôn
Mrs. Frances Parry
Mrs. Price, Gwenllian
Mrs. Williams, Bryn Clorion
Mrs. Williams, Ty'n Llidiart
Mrs. Bethan Williams
Cafwyd ymddiheuriad gan Mrs. Wilson, Bryn Eglwys

Cafwyd llawer o awgrymiadau diddorol am gyfarfodydd y flwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Rhagfyr** | Gwasanaeth Carolau yng nghapel Siloam nos Sul, Rhagfyr 21 am 8 o'r gloch. Bydd is-bwyllgor o arbenigwyr yn trafod ffurf y cyfarfod. Pasiwyd i'w wneud yn gyfarfod agored ac i wneud casgliad at achosion da. |
| **Ionawr** | Bydd y cyfarfod yma yng ngofal Mrs. Price, Gwenllian. Cyfarfod yn dwyn y teitl **Dyfalu** fydd hwn. |
| **Chwefror** | Pasiwyd i ofyn i Mr. Evan Owen, Moelfre ddod atom i siarad am ei waith efo'r bad achub. |
| **Mawrth** | Cinio Gŵyl Dewi - os bydd yr aelodau'n fodlon. |
| **Ebrill** | Gan fod Pasiant Merched y Wawr yn cael ei gynnal yn Ysgol Gyfun Llangefni ar Ebrill 18 teimlwyd y dylem fynd fel cangen i'w cefnogi. |
| **Mai** | Gobeithir mynd i Goleg Pencraig i gael Arddangosfa Goginio. |
| **Mehefin** | Gwibdaith i'r Lôn Goed un ai ar nos Wener neu bnawn Sadwrn. |
| **Gorffennaf** | Cyfarfod Blynyddol ac efallai cynhelir ffair Haf neu noson Goffi. |

**Dyma ddetholiad o'r Llyfrau Cofnodion rhwng 1975-2005**

**Cofnodion Cyfarfod Merched y Wawr, mis Tachwedd 1975**
Daeth nifer fawr o'r aelodau ynghyd i'r cyfarfod yn y Neuadd. Cyflwynwyd y siaradwraig Mrs. Elen Roger Jones, gan Mrs. Williams, Tŷ'n Llidiart. Cafwyd noson ddifyr dros ben yng nghwmni Mrs. Jones. Soniodd wrthym am ddillad trwy'r oesoedd a dangosodd i ni lawer o ddillad a gasglwyd ganddi dros y blynyddoedd. Diolchwyd iddi gan Mrs. Price, Gwenllian. Dewiswyd Mrs. Eluned Roberts, Nyth Clyd a Mrs. Jones, Parc yn gynrychiolwyr ar Bwyllgor y Neuadd a Mrs. Megan Price a Mrs. Bethan Williams i fynd i'r Pwyllgor Rhanbarth. Gwnaethpwyd y te gan Mrs. Ann Parry a Mrs. Catherine Hughes. Dewiswyd Mrs. Ann Parry i ddosbarthu'r Wawr.

**Cofnodion Cyfarfod Gorffennaf 1980**
Miss Mari Wyn Meredith oedd gyda ni y mis yma yn rhoi arddangosiad o osod blodau. Yr oedd pob gosodiad a wnaed yn ddeniadol dros ben a hawdd dweud ei bod yn feistres ar y gwaith. Mwynhaodd pawb y noson yn ei chwmni a'i gwylio'n trin y blodau mor fedrus. Diolchwyd iddi gan y Llywydd a chan Mrs. Catherine Jones.
Roedd apêl wedi dod i law am rai i stiwardio ym Mhabell Merched y Wawr yn Sioe y Sir ac addawodd Mrs. Meri Elis a Mrs Vera ap Rhobert fynd ar y dydd Mercher.
Hefyd bu trafod ar ymweliad Merched Caerfyrddin â'r ynys. Byddant yn cyrraedd ar 14 Gorffennaf a nos Fercher, Gorffennaf 16 byddant yn ymweld â'r Theatr Fach yn Llangefni. Canghennau Talwrn a Llangefni sydd yn gyfrifol am drefnu'r adloniant a bwyd iddynt a dewiswyd aelodau o'r ddwy gangen i wneud hynny.
Pasiwyd ein bod yn rhoi £5 at y bwyd a £5 i'r Glorian a £10 i'r Ysgol Feithrin gan eu bod angen prynu pethau newydd i'r plant ac yn gorfod talu rhagor i'r athrawes.
Rhoddwyd y bwyd gan Mrs. Parry, Gwenfro a Mrs. Williams, Bodfair a diolchwyd i'r ddwy gan y llywydd.

**Cofnodion Mehefin 1984**
Aeth rhyw 12 ohonom am dro hyd un o hen lwybrau'r ardal sef, heibio Sein Fawr a Chefnpoeth, ymlaen at Tŷ Croes, i lawr Lôn Capel ac yn ôl i'r Neuadd am baned a sgwrs. Roedd yn ddifyr iawn gwrando ar Mrs Megan Price yn adrodd ei hanes yn cerdded y llwybr ers talwm i Siop Lleiniau ac yn sôn am yr hen gymeriadau a arferai fyw yn yr ardal.

**Cofnodion Mawrth 1988**
(Bu trefnu adloniant i'r pentref yn rhan bwysig o fywyd y gangen yn yr 1980au a'r 90au.)
Cynhaliwyd Steddfod Lol yn y neuadd nos Fercher Mawrth 2. A dyna i chi Steddfod! Fu erioed ei bath. Yr aelodau a'u gŵyr egnïol oedd yr eisteddfodwyr brwd.
Rhannwyd y pentref yn ddau dim – Tîm Y Rhyd a Thîm Dyfnan. Y ddau feirniad byrlymus oedd Ellis Wyn Roberts, Bodffordd ac Islwyn Williams, Llangefni. Cafwyd sylwadau bachog a doniol iawn ganddynt.
Toedd neb yn adnabod yr arweinydd llifeiriol! Roedd rhai o'r gynulleidfa'n amau mai William John, Bryn Clorion ydoedd. Doedd dim posib cael neb gwell.
Cafwyd eitemau amrywiol: adrodd a chanu dan 5 oed, meimio, cyd-adrodd, côr, band cegin ac yn y blaen. Rhaid peidio anghofio'r gystadleuaeth balé. Wna'r gynulleidfa byth anghofio rwy'n siŵr. Roedd Rudolf Nureyev a'i bartner yn ymddangos drwy ganiatâd Gorbachev. Cawsom wefr yn gwylio eu symudiadau gosgeiddig. Roedd y ddau gwmni wedi gwneud argraff ddofn ar y gynulleidfa yn enwedig yn yr olygfa olaf – druan o'r alarch! Ymuno â chwmni Bolshoi fydd y cam nesaf.
Diolchwyd i bawb gan ein Llywydd ar ddiwedd noson o lond bol o chwerthin iach. Ar ôl cyfri manwl ar y marciau canfyddwyd mai cyfartal oedd y ddau dim. Cyflwynwyd cwpan arian i'r ddau arweinydd medrus – Elisabeth, Llwyn Helyg a Dic, Cae Cam.
Diolch yn fawr i Meri, Luned, Rosina ac Eurwen am drefnu noson mor hwyliog. Brysied y nesaf.

Llongyfarchiadau i'r cwmni Drama fu'n actio yn ystod Gŵyl Ddrama Merched y Wawr Môn yn Theatr Fach, Llangefni ym Mehefin 1989.



Meri Rhiannon a Myfanwy Williams yn y ddrama yn 1989



Vera ap Rhobert a Meri Rhiannon Elis 1989

**Mai 1992**
Dathlu 25 mlynedd y Mudiad yn Y Parc, Y Bala
(Aeth nifer o'r aelodau yno i'r Dathlu a dyma aeth â'u bryd.)
Gwelsom Swyddogion Môn yn cario'r Faner. Roedd gwaith Mrs. Elisabeth Williams, Llwyn Helyg sef ceiliog i'w gweld yn gywrain arni.




Mae'r trydydd llyfr cofnodion yn gorffen fel hyn:

Gorffennaf 2005
Diwedd blwyddyn a diwedd Llyfr Cofnodion. Yn ystod yr haf dymunwyd yn dda i'r sylfaenydd, Meri Rhiannon Elis pan symudodd i Landegfan i fyw. Diwedd cyfnod o 30 mlynedd o fodolaeth Cangen Merched y Wawr, Talwrn.
Diwedd cyfnod ella ond ymlaen yr aeth y gangen.

Cawsom lawer iawn o hwyl yn ein cyfarfodydd, ar dripiau a theithiau dirgel, helfa drysor ambell i ddrama ac Eisteddfod Lol.

Cangen fechan wledig ydym ond rydym wedi cefnogi gwaith Rhanbarth Môn, Pum Rhanbarth y Gogledd a'r Pwyllgorau Cenedlaethol.

Myfanwy Williams oedd yr un fwyaf prysur yn ein plith:
Llywydd Rhanbarth Môn – 1978-80 a 2000-02
Llywydd y Pum Rhanbarth 2000
Trysorydd y Pum Rhanbarth
Trysorydd Rhanbarth Môn dair gwaith
Aelod o'r Pwyllgor Cyllid Cenedlaethol ac aelod o'r Pwyllgor Celf a Chrefft

Bu Delyth Jones yn Drysorydd ac Ysgrifennydd y Rhanbarth ddechrau'r ganrif hon.

Bu Ann Jones yn Ysgrifennydd Pwyllgor Cenedlaethol y Dysgwyr ddiwedd yr 80au. Bu'n trefnu Ysgol Undydd y Dysgwyr yn Llangefni ar ran Rhanbarth Môn ac Ysgol Dysgu Gydol Oes, Prifysgol Bangor o ddiwedd yr 80au hyd 2007.
Bu'n Ysgrifennydd Rhanbarth Môn rhwng 2014-17.

Rydym wedi bod ac yn dal i fod yn brysur yn cefnogi bywyd y gymuned:

| | |
|---|---|
| Eisteddfod y Talwrn | Y Papur Bro |
| Neuadd y Pentref | Darllen i'r deillion |
| Dysgwyr yr ardal | |

Byddai'r aelodau'n mynd i'r Dosbarth Cymraeg oedd yn cael ei gynnal yn y Neuadd i sgwrsio efo'r dysgwyr. Bydd rhai yn mynd i Ysgol Undydd y Rhanbarth yn Llangefni . Mae nifer o ddysgwyr wedi bod yn aelodau efo ni ac wedi cyfrannu at ein gweithgareddau.

Rydym yn dal i gefnogi Paned a Sgwrs gyda'r dysgwyr yn Oriel Ynys Môn bob mis.



Meri, Myfanwy ac Alice efo'r dosbarth Cymraeg yn Neuadd y Pentref 2004



Alice Williams yn Ysgol Undydd y Rhanbarth

Cawsom un awr fawr – ni enillodd y Cwis Hwyl Cyntaf yn 2002! Roeddem yn gydradd ail yn 2007.



Enillwyr y Cwis Hwyl Cenedlaethol 2002
Kim Davies, Carys Taylor, Meri Rhiannon Elis ac Ann Jones

Mae un o'n haelodau, Bethan Wyn Jones, yn adnabyddus am ei gwaith yn cyflwyno byd natur trwy gyfrwng sgyrsiau radio, erthyglau papur newydd, nifer o lyfrau, llu o ddosbarthiadau addysg oedolion a mwy byth o nosweithiau i amryfal gymdeithasau ledled Cymru. Mae hefyd yn brysur efo'r gwaith o ddiogelu dyfodol y wiwer goch ym Môn.

Yn 2009 roedd gennym 21 o aelodau. Mae cymunedau Môn wedi newid ac mae amryw yn dod atom o bentrefi eraill i fwynhau'r gweithgareddau amrywiol.

Dyma lun o'r aelodau ar daith haf 2009 i weld yr ardd hardd yn y Penrhyn, Llanffinan a gardd hyfryd Vera ap Rhobert yn Sycharth, Talwrn.



Ymweliad â gardd y Penrhyn, Mai 2009

Rhes gefn:
Anwen Jones, Vera ap Rhobert, Jean Humphreys, Frances Parry, Myfanwy Williams, Delyth Jones, Beryl Hughes, Alice Williams, Myfanwy Jones, Gwenda Jones
Rhes Flaen:
Elisabeth Williams, Buddug Thomas, Diane Thomas, Barbara(perchennog yr ardd), Janet Quinn, Jean Williams

Ann Jones oedd yn tynnu'r llun.

Doedd Bethan Wyn Jones, Mair Hughes, Joyce Bennett, Ann Evans, Pat Jones, nac Owenna Orme ddim yn gallu bod yno.

**Merched y Wawr, Talwrn 2009 -2017**

Rydym yn dal i gyfarfod i fwynhau pob math o weithgareddau a thripiau.
Yn anffodus daeth ein harfer o gynnal Gwasanaeth Carolau yn y pentref i ben yn 2009 oherwydd nifer o anawsterau – dyma'r rhaglen olaf.

************************************************************

Gwasanaeth Nadolig Merched y Wawr Talwrn 2009

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Darlleniad - *Nadolig* - Dic Jones | Ann Jones |
| 2. | Croeso a diolch | Ann Jones |
| 3. | Carol 11 - *Draw yn ninas Dafydd Frenin* | Ann Jones |
| 4. | *Be ydy 'Dolig?* | Vera ap Rhobert |
| 5. | Eitem | MYW |
| 6. | Darlleniad - Luc 2 Adnod 1-7 | Alice Williams |
| 7. | Carol 23 – *A welaist ti'r ddau?* | Alice Williams |
| 8. | *Nadolig* - Geraint Lovgreen | Owain |
| 9. | *Y Mul* - Gareth Maelor | Bryn Jones |
| 10. | Carol - *Seren Wen* | Cai Fôn |
| 11. | Gweddi | Helen Evans |
| 12. | Carol 5 - *I orwedd mewn preseb* | Helen Evans |
| 13. | Darlleniad - Luc 2 adnod 8-14 | Nia Wyn Efans |
| *14.* | *Y Ddafad* - Gareth Maelor | Bethan Wyn Jones |
| 15. | Carol 12 - *Pan oedd bugeiliaid* | Bethan Wyn Jones |
| 16. | Darlleniad - Luc 2 Adnod 15-20 | Elliw ap Rhobert |
| 17. | Carol | Martin Jones |
| 18. | Darlleniad Mathew 2 1-12 | Siân Hydref |
| *19.* | *Y Camel* Gareth Maelor | Robert Idris |
| 20. | Darlleniad – *Cymorth Cristnogol* | Gwawr Oliver |
| 21. | Carol 30 – *Ganwyd Iesu* | Gwawr Oliver |
| 22. | Casgliad | |
| 23. | Carol 4 – *O Deuwch Ffyddloniaid* | Y Parchedig Elwyn Jones |

**NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA**

************************************************************

Bu sawl tro ar fyd ers 2009 ac fe gollwyd rhai o'r aelodau – Vera ap Rhobert, Carys Taylor a Janet Quinn. Symudodd eraill a bu raid i Myfanwy Williams symud i Gartref gan ei bod wedi colli ei golwg, ond wrth lwc daeth aelodau newydd atom i fwynhau'r gwmnïaeth. Mae'n dwy aelod hynaf, sef Alice Williams ac Elisabeth Williams, dros 90 ond mae'r ddwy yn heini ac yn hwyliog ac ifanc iawn eu hysbryd. Alice yw'r un sy'n gyfrifol am drefnu paned i ni bob tro ac Elisabeth yw'r un sy'n ein difyrru efo pob math o storïau yn ystod ein nosweithiau cartrefol.



Trip Pant Du Mehefin 2012

Mair Wynn Hughes, Beryl Hughes, Gweneth Francis, Olwen Jones, Jean Williams, Elisabeth Williams, Janet Quinn, Gwenda Jones, Alice Williams, Myfanwy Jones, Anwen Jones, Buddug Thomas, Jean Humphreys.

Bethan oedd yn tynnu'r llun

Diwrnod difyr iawn.
Aethom yn griw i Winllan Pant Du ym Mhenygroes a chael croeso mawr.
Cawsom gyflwyniad i hanes Pant Du a thaith fer yn y gwinwydd a pryd o fwyd blasus yn y Caffi ond, yn fwy pwysig na dim, cawsom brynu tatw newydd yn syth o'r cae i fynd adre i'w mwynhau. Rhai da oeddent hefyd.



Cinio Nadolig 2012 yn Nant yr Odyn
Bethan Wyn Jones, Mair Wynn Hughes, Janet Quinn, Beryl Hughes, Myfanwy Jones, Alice Williams, Ann Jones, Elisabeth Williams, Gwenda Jones, Mair Hughes, Myfanwy Williams, Vera ap Rhobert, Jean Humphreys



Dathlu pen-blwydd Alice Williams yn 90 oed yn Te Bach, Benllech 2013
Cefn: Jean, Catherine Nagashima (adre o Japan), Gweneth, Marilyn, AnnW., Jean, Gwenda, Beryl, Bethan
Blaen: Janet, Myfanwy, Elisabeth Jean, Buddug, **Alice,** Myfanwy, Ann J




2014 Dathlu Pen-blwydd Myfanwy Williams yn 80 oed




2014 Dathlu Pen-blwydd Elisabeth Williams yn 90 oed



Ymweliad â'r Wylfan, Moelfre
Cefn: Jean Humphreys, Gwenda Jones, Ann Jones, Swyddog Addysg, Buddug, Myfanwy
Blaen: Owenna Orme, Eurwen Jones, Olwen Jones, Beryl Hughes, Jean Williams, Janet Quinn, Myfanwy Williams, Alice Williams, Elisabeth Williams

Tydy Môn yn braf!!

Rwy'n siŵr mai ni yw'r unig gangen yng Nghymru i fedru dweud bod dwy o'n haelodau wedi ennill Gwobr Tir na n-Og - Mair Wynn Hughes wedi ei hennill 4 gwaith i gyd a Bethan Wyn Jones wedi ei hennill am y tro cyntaf yn 2013. Mae Mair Wynn Hughes wedi ennill Tlws Mary Vaughan Jones hefyd. Cawsom noson hyfryd ym mis Chwefror 2015 yng nghwmni Mair pan fu'n bwrw golwg dros 50 mlynedd o sgrifennu ar gyfer plant a phobl ifanc - 99 o gyfrolau i gyd – hyd yn hyn! Fis Hydref 2016 cawsom noson hyfryd arall yng nghwmni Bethan pan aeth â ni am dro drwy gyfrwng sgwrs a llun ar hyd arfordir Môn.
( Gwelir llun y ddwy wrth ochr ei gilydd yn Nant yr Odyn 2012 )

Mae Enfys, un arall o'n haelodau yn hoff iawn o sgrifennu hefyd ac wedi ennill nifer o wobrau ym Môn yn ddiweddar.

2015 oedd blwyddyn Dathlu'r 40 i ni a chawsom Ginio Dathlu yng ngwesty Tre-Ysgawen fis Rhagfyr pan ddaeth Jane Edwards, y wraig wadd yn y cyfarfod cyntaf a Rhiannon Parry a fagwyd yn yr ardal atom. Mis Tachwedd 2016 cawsom noson gofiadwy iawn yng nghwmni Rhiannon pan ddaeth atom i rannu atgofion am ei magwraeth yn yr ardal.



Aelodau a chyfeillion yn Dathlu'r 40 yng ngwesty Tre-Ysgawen, Rhagfyr 2015

Cefn: Jean Humphreys, Buddug Thomas, Anwen Jones, Mair Wynn Hughes, Ann Jones, Bet Evans, Rhiannon Parry, Enfys Hughes, Myfanwy Jones, Gweneth Francis, Jean Williams, Eurwen Jones, Beryl Hughes, Jean Parry, Owenna Orme, Jane Edwards, Lowri Evans, Gwenda Jones, Catherine Jones,

Blaen: Enid, Myfanwy Williams, Elisabeth Williams, Alice Williams, Olwen Jones.



Cinio Nadolig 2016 Gwesty Tre-Ysgawen

Cefn: Anwen Jones, Mair Wynn Hughes, Ann Jones, Gwenda Jones, Carys Aaron, Jean Williams, Enfys Hughes, Diane Thomas

Blaen: Beryl Hughes, Myfanwy Jones, Mair Hughes, Ann Williams, Alice Williams, Buddug Thomas, Elisabeth Williams, Jean Parry, Olwen Jones.

Mae gennym nifer o weithgareddau diddorol wedi eu trefnu am weddill y tymor. Rydym yn dal i fwynhau'r gwmnïaeth yn fawr iawn.
Hir y parhaed.